



**TAG UWCH**

1000N50-1



S24-1000N50-1

**DYDD GWENER, 24 MAI 2024 – PRYNHAWN**

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF – U2 uned 5**

**Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, yr Hengerdd a'r Cywyddau  
(Papur Ysgrifenedig)**

2 awr

### **DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

### **CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir i chi.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylech ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **1 AWR** ar Adran A ac **1 AWR** ar Adran B.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o'r testunau gosod na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

### **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Y mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau.

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn ynghyd â'r marciau am ansawdd iaith ysgrifenedig.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc, er enghraifft dadansoddi a defnyddio iaith ysgrifenedig.

## ADRAN A

## 1. Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

Darllenwch y darn canlynol yn ofalus ac yna atebwch y **ddau** gwestiwn gan ddewis a dethol gwybodaeth **berthnasol** o'r darn.

- (a) Esboniwch yn fanwl beth sy'n **digwydd** yn y dyfyniad. Yn eich ateb, cyfeiriwch at **arwyddocâd** yr hyn sy'n digwydd yn y darn yng **nghyd-destun** y chwedl. [15]
- (b) Cyfeiria yr Athro Sioned Davies at Bendigeidfran fel '*brenin delfrydol, amddiffynnydd ei bobl a'i dylwyth*'. I ba raddau y byddech chi'n cytuno â'r disgrifiad hwn? Defnyddiwch y dyfyniad yn sylfaen i'ch ateb ond disgwylir eich bod yn cyfeirio at rannau perthnasol eraill o'r chwedl yn ogystal. [15]

Gwobrwyir eich iaith ysgrifenedig wrth ateb y **ddau** gwestiwn uchod. [15]

'Kyuodwch, Uanawydan uab Llyr, ac Eueyd Hir, ac Unic Glew Yscwyd, ac ewch yn y ol,' heb ef, 'a menegwch idaw, ef a geif march iach am pob un o'r a lygrwyt; ac y gyt a hynny, ef a geif yn wynepwert idaw, llathen aryant a uo kyuref [a'e uys bychan] a chyhyt ac ef e hun, a chlawr eur kyflet a'y wyneb; a menegwch ydaw pa ryw wr a wnaeth hynny, a phan yw o'm anuod inheu y gwnaethpwynt hynny; ac y may brawt un uam a mi a wnaeth hynny, ac nat hawd genhyf i na'e lad na'e diuetha; a doet y ymwelet a mi,' heb ef, 'a mi a wnaef y dangneued ar y llun y mynho e hun.'

E kennadeu a aethant ar ol Matholwch, ac a uanagyssant idaw yr ymadrawd hwnnw yn garedic, ac ef a'e guereudewis.

'A wyr,' heb ef, 'ni a gymerwn gynghor.' Ef a aeth yn y gynghor; sef kynghor a uedylyssant: os gwrthot hynny a wnelynt, bot yn tebygach ganthunt cael kywilid a uei uwy, no chael iawn a uei uwy. A disgynnu a wnaeth ar gymryt hynny. Ac y'r llys y deuthant yn dangneuedus. A chyweiraw y pebylleu a'r palleu a wnaethant udunt ar ureint kyweirdeb yneud, a mynet y uwyta. Ac ual y dechreuysant eisted ar dechreu y wled, yd eistedysant yna.

A dechreu ymdidan a wnaeth Matholwch a Bendigeituran. Ac nachaf yn ardiawc gan Uendigeituran yr ymdidan, ac yn drist, a gaei gan Uatholwch, a'y lywenyt yn wastat kyn no hynny. A medylaw a wnaeth, bot yn athrist gan yr unben uychanet a gawssei o iawn am y gam.

'A wr,' heb y Bendigeituran, 'nit wyt gystal ymdidanwr heno ac un nos. Ac os yr bychanet genhyt ti dy iawn, ti a gehy ychwanegu yt wrth dy uynnu, ac auory talu dy ueirch yt.'

'Arglwyd,' heb ef, 'Duw a dalo yt.'

'Mi a delediawf dy iawn heuyt yt,' heb y Bendigeituran. 'Mi a rodaf yt peir; a chynnedyf y peir yw, y gwr a lader hediw yt, y uwrw yn y peir, ac erbyn auory y uot yn gystal ac y bu oreu, eithyr na byd llyueryd ganthaw.'

## ADRAN B

## 2. Yr Hengerdd a'r Cywyddau

Darllenwch y dyfyniadau a ganlyn yn ofalus ac yna atebwch y **ddau** gwestiwn.

Gwobrwyir eich iaith ysgrifenedig wrth ateb y **ddau** gwestiwn isod.

[15]

- (a) Ysgrifennwch am **gefndir** y **gerdd** a'r **bardd**. Cyfeiriwch yn benodol at y **dyfyniad** isod er mwyn gwneud eich ateb yn berthnasol. [15]

Yr wylan deg ar lanw, dioer,  
Unlliw ag eiry neu wenlloer,  
Dilwch yw dy degwch di,  
Darn fal haul, dyrnfol heli.  
Ysgafn ar don eigion wyd,  
Esgudfalch edn bysgodfwyd.  
Yngo'r aud wrth yr angor  
Lawlaw â mi, lili môr.  
Llythr unwaith lle'th ariannwyd,  
Lleian ym mrig llanw môr wyd.

Cyweirglod bun, cai'r glod bell,  
Cyrch ystum caer a chastell.  
Edrych a welych, wylan,  
Eigr o liw ar y gaer lân.  
Dywaid fy ngeiriau dyun,  
Dewised fi, dos hyd fun.  
Byddai'i hun, beiddai'i hannerch,  
Bydd fedrus wrth fwythus ferch  
Er budd; dywaid na byddaf,  
Fwynwas coeth, fyw onis caf.  
Ei charu'r wyf, gwbl nwyf nawdd,  
Och wŷr, erioed ni charawdd  
Na Merddin wenithfin iach,  
Na Thaliesin ei thlysach.  
Siprys dyn giprys dan gopr,  
Rhagorbryd rhy gyweirbropr.

Och wylan, o chai weled  
Grudd y ddyn lanaf o Gred,  
Oni chaf fwynaf annerch,  
Fy nihenydd fydd y ferch.

(b) Dadansoddwch **grefft** ac **arddull** y bardd yn y dyfyniad isod.

[15]

Y bore dyw Sadwrn, cad fawr a fu  
 o'r pan ddwyre haul hyd pan gynnu.  
 Dygrysiwys Fflamddwyn yn bedwar llu;  
 Goddau a Rheged yn ymddullu.  
 Dyfyn o Argoed hyd Arfynydd –  
 ni cheffynt eirios hyd yr un dydd.  
 Adorelwis Fflamddwyn, fawr drybestawd,  
 'A ddoddynt fyg ngwystlon, a ynt barawd?'  
 Ys atebwys Owain, dwyrain ffosawd,  
 'Ni ddoddynt, nid ydynt, nid ynt barawd;  
 a chenau Coel, byddai gymwyawg  
 lew cyn as talai o wystl nebawd'.  
 Adorelwis Urien, udd Erechwydd,  
 'O bydd ymgyfarfod am gerennydd  
 dyrchafwn eidioedd odduch mynydd  
 ac amborthwn wyneb odduch ymyl  
 a dyrchafwn beleidr odduch pen gwŷr,  
 a chyrchwn Fflamddwyn yn ei luydd  
 a lladdwn ac ef a'i gyweithydd!'  
 Rhag Argoed Llwyfain  
 bu llawer celain;  
 rhuddai frain ryfelwyr.  
 A gwerin a grysiwys gan hynefydd:  
 armâf i flwyddyn nad wy cynnydd.

## DIWEDD Y PAPUR